## Gobaith y Groes i Dewi Wyn o Eifion

Amaethwr yn y Gaerwen, plwyf Llanystumdwy yn Eifionydd oedd David Owen (1784–1841) a adnabyddid yn llenyddiaeth Cymru fel Dewi Wyn o Eifion. Dysgodd y grefft gan gymydog iddo, Robert Williams neu Robert ap Gwilym Ddu, a adnabyddwn trwy ei emynau. Cefnogwyr Eglwys y Bedyddwyr, Capel y Beirdd, ar y Lôn Goed, oeddynt ac ychydig fisoedd cyn ei farw y daeth Dewi'n gyflawn aelod yno. Gwrandäwr oedd ef cyn hynny.

Ond teimlai i'r byw am gyflwr trist y werin-bobl, a gwelir hynny yn ei Awdl 'Elusengarwch' sy'n disgrifio sefyllfa gweithiwr sydd yn dad i deulu mawr.

'Mae y gŵr yn ymguraw
A'i dylwyth yn wyth neu naw,
Dan oer hin yn dwyn y rhaw – mewn trymwaith
Bu ganwaith heb giniaw.'

Ac yna dywed Dewi Wyn:

'Ba helynt cael ei blant cu
Oll agos a llewygu?
Dwyn ei geiniog dan gwynaw;
Rhoi angen un rhwng y naw!'

Am y pum mlynedd olaf o'i oes bu'n orweiddiog o waeledd corff a meddwl. Deuai pregethwyr amlwg i'w gysuro yn ei ystafell wely. Bu John Elias yn ymweld â'r Gaerwen. Felly hefyd Owen Thomas pan weinidogaethai ym Mhwllheli. Ond yr ymwelydd gorau gan y bardd oedd Richard Humphreys, Y Dyffryn. Un tro, aeth ef gyda Dewi Wyn yr holl ffordd i Lundain i dderbyn diagnosis y meddygon. Lluniodd lawer i linell gynganeddol gofiadwy yn ei gaethiwed.

'Wedi cerydd daw coron ac eto
Nid yw cerydd ond cariad.'

Trueni na fyddem ni'n cofio hynny weithiau. Ac yna'r cwpled:

'Gwae wired y gair doeth
Y daw gofid o gyfoeth.'

Ond yn y blynyddoedd blin bu'n pwyso'n drwm ar gysuron yr Efengyl, yn arbennig ar ystyr ac arwyddocâd Croes Crist i'r credinwyr. Wrth farw yn 56 oed ar 17 Ionawr 1841 dywedodd Dewi Wyn wrth ei deulu:

'Nid oes dim ond gwaed y Groes a wna'r tro i mi heddiw.' Bu farw yng ngwir obaith y Pasg a gosodwyd ef i orffwys ym mynwent Llangybi, Eifionydd.

***D. Ben Rees***